Canllaw Chwilota'r Glannau Creigiog

Cragen foch felen

- Mae'n drilio trwy gragen ei hysglyfaeth ac yna'n chwistrellu ensymau i dreulio'r tu mewn cyn sugno allan.

☐ 5 pwynt

Sbwng oren

- Efallai nad yw'n edrych fel anifail, ond anifail yw sbwng!
- Mae'n feddal ac yn llawn 'tyllau' ac i'w weld mewn llefydd cysgodol.

☐ 15 pwynt

Gwichiad

- Malwen fôr gyda 'phigyn' gwastad. Mae'r lliw'n amrywio.
- Hoffi byw ar wymon.

☐ 5 pwynt

Gwymon danheddog

- Gwymon brown sydd ag ymyl danheddog fel llif.
- I'w weld ar y lan waelodol.

☐ 5 pwynt

Tiwblyngyren ddrumiog

- Mae'n adeiladu tiwbiau caled, gwyn ar y creigiau ac yn byw ynddynt.

☐ 10 pwynt

Llyfrothen benddu

- Mae'n newid ei lliw er mwyn toddi i'r creigiau neu'r gwymon.
- Gall fyw tu allan i'r dŵr am gyfnod byr.

☐ 15 pwynt

Bara lawr

- Gwymon gwastad, coch sy'n mynd yn fwy porffor wrth iddo dyfu.
- Bwyd Cymreig clasurol!

☐ 5 pwynt

Corgimwch

- Mae'n clywed yn arbennig o dda
- Mae gan gorgimwch 'gorn' rostrwm pwyntiog, yn wahanol i'r berdys gwastad.

☐ 10 pwynt

Cranc meudwy

- Mae i'w weld mewn pyllau a dŵr bas.
- Mae'n un da am gywiro'i hun os yw ei gragen yn cael ei tharo drosto.

☐ 20 pwynt

Seren frau

- Mae i'w gweld mewn holltiadau ac o dan gerrig (cofia roi'r cerrig yn ôl wedi eu symud)
- Bydd yn ofalus wrth drafod hon – mae'n frau fel y mae'r enw'n awgrymu!

☐ 20 pwynt

Top môr porffor

- Malwen fôr sydd â chragen arbennig gyda streipiau porffor arni.
- Cregynem (*mother of pearl)* ar y tu mewn.

☐ 10 pwynt

Lleuen fôr

- Mae'n edrych ychydig fel mochyn y coed.
- Mae i'w gweld mewn llefydd llaith, ac o dan greigiau.

☐ 25 pwynt

Gwymon cwrel

- Nid cwrel yw hwn o gwbl, ond gwymon caled, crofennog.
- Pan fydd yr haul yn gryf gall droi'n wyn.

☐ 15 pwynt

Letysen fôr

- Gwymon gwyrdd bwytadwy.
- Os yw'n cael ei dynnu o'r creigiau mewn storm gall dyfu wrth arnofio.

☐ 5 pwynt

Anemone gleiniog

- Talpiau fel jeli a galli di weld ei deimlyddion - mae'n eu defnyddio pan fydd yn bwydo o dan y dŵr.
- Ei geg yw ei ben-ôl hefyd!

☐ 5 pwynt

Brenigen

- Mae'n mynd yn ôl i'w 'chraith' gartref bob dydd. Paid â tharo brenigen i ffwrdd – fydd hi ddim yn gallu byw.

☐ 5 pwynt

Llyngyren y dail gwyrdd

- 5-15cm
- Mae'n bwydo ar gregyn llong a chregyn glas sydd wedi marw.

☐ 25 pwynt

Anemone nadreddog

- Teimlyddion hir, gludiog sy'n gallu bod yn frown neu'n wyrdd gydag ymylon pinc-porffor.
- Maen nhw i'w gweld mewn pyllau.

☐ 15 pwynt

Cranc porslen

- Maen nhw i'w gweld o dan greigiau (cofia eu rholio nôl wedyn).
- Un grafanc llawer yn fwy na'r llall.
- Hyd at 1.5cm.

☐ 10 pwynt

Cranc gwyrdd

- Y cranc mwyaf cyffredin ar y lan. Mae'r lliw yn amrywio o wyrdd i goch.
- Pinsiwrn i ddal ei ysglyfaeth (bydd yn ofalus!).

☐ 5 pwynt

Dros 100 o bwyntiau: rwyt yn chwilotwr glan môr swyddogol
Dros 140 o bwyntiau: rwyt yn arbenigwr ar chwilota glan môr!

Datblygwyd y canllaw hwn gan **ACA Sir Benfro Forol**
www.PembrokeshireMarineSAC.org.uk

Diolchiadau:
- Cymerwyd llawer o'r wybodaeth yn y canllaw hwn o lyfryn Chwilotwr Cefn Gwlad Glan y Môr Cyngor Cefn Gwlad Cymru 2006. ISBN 1 86169 136 x
- MarLIN (The Marine Life Information Network)

Credydau lluniau: John Archer-Thomson, Sue Burton.